O dud. 18

*pushing the English wedge further and further into the heart of the principality . . .*

*Pushing the wedge*, gwthio lletem, oedd y geiriau a ddewiswyd, ond trywanu calon Cymry â gwaywffon oedd yr ystyr gwirioneddol.

Er mwyn bod yn hollol deg mae'n rhaid cyfaddef mai dyna oedd barn cryn nifer o Gymry hefyd. Mae un enghraifft yn ddigon — neb llai na Henry M. Stanley, gŵr a dreuliodd ei ddyddiau cynnar yn Ninbych a Llanelwy. Dyma ddyfyniad o lythyr a ysgrifennodd 30 Tachwedd 1891 — yr union gyfnod dan sylw yma. Meddai:

*The Eisteddfod . . . is for the purpose of exciting interest in the Welsh nationality and language. My travels . . . have ill-prepared me for sympathising with such a cause. . . I should recommend Welshmen to turn their attention to a closer study of the English language, literature and characteristics . . . But who will tell them the real truth. I am not the man!*

Ychydig yn ddiweddarach rhoddwyd inni gipolwg ar gyffes ffydd Stanley. Meddai:

*I beliefe that we Englishmen (sic) are working out the greatest destiny which any race has ever fulfilled . . . and the name of England still be reverenced in every quarter of the globe . . . with jealous care of the dignity and the honour of the Empire . . .*

Nid oes angen dyfynnu rhagor, oblegid fe ddatgelwyd digon eisoes i arddangos natur yr awyrgylch gwaradwyddus a ddifwynai'r gyfathrach rhwng yr 'awdurdodau' yn Llundain a'r Cymry yn eu gwlad eu hunain.

Mae'n sicr fod Herkomer, gyda'i niferus ac amrywiol gysylltiadau cymdeithasol, yn hollol gyfarwydd â'r agwedd haerllug a gynrychiolid gan y *Times* yr adeg honno. Fodd bynnag, mae'n eglur hefyd iddo anwybyddu'r collfarnau ar Gymru ac o ganlyniad bu iddo ymddiddori yn yr Eisteddfod esgymun, a bu'n hael ei gyfraniad iddi.

Mae'r ffaith mai Almaenwr gwladaidd, yn tarddu o deulu



*Darlun Herkomer o'r Archdderwydd Hwfa Môn — y dyn tebycaf i fardd a welodd Cymru, yn ôl Williams Parry.*

gwerinol o grefftwyr, ydoedd yn y bôn, a gŵr nad anghofiodd ormes hiliol ei fachgendod, yn egluro i raddau paham ei fod yn fwy goddefgar a goleuedig na gwŷr mympwyol y wasg yn Llundain. Go brin, rhywsut, fod hynny'n eglurhad digonol dros iddo ogwyddo cymaint at Gymru.

* * * *

TRA eto'n arlunydd ifanc tuag ugain mlwydd oed ac wedi cwblhau ei hyfforddiant ffurfiol fel artist, roedd Herkomer yn parhau mewn cyflwr anghenus iawn ac yn dibynnu am gynhaliaeth iddo'i hun a'i rieni trwy baratoi brasluniau i'r *Graphic*. Fodd bynnag, roedd ganddo fesur da o hunanhyder a phenderfyniad.

Yn 1873, yn bedair ar hugain oed, arddangoswyd paentiad o'i waith yn yr Academi Frenhinol am y tro cyntaf. Golygfa bentrefol Almaenig ydoedd yn dwyn y teitl — *After the Toil of the Day.*

Ymddengys iddo gael anhawster mawr i'w werthu nes i foneddwr ifanc alw heibio'n annisgwyl a thalu'n ddirwgnach y swm o £500 a ddisgwylid am y llun. Dyma drobwynt ym mywyd Herkomer, ac fe ddadlennir ei hapusrwydd mewn llythyr gorfoleddus at ei rieni.

Roedd ef mor dlawd a di-glem ar y pryd fel nas gwyddai sut i drin y siec. Unwaith eto, beth a wnelo hyn oll â Chymru? Pwrcaswr y paentiad oedd boneddwr o Lanelli, Charles William Mansel Lewis, sgweiar Castell Stradey, a dyna oedd dechrau'r cyfeillgarwch agos a fu rhyngddynt am amser maith.

Roedd Mansel Lewis yn Gymro breiniol a deallus, yn dirfeddiannwr ar raddfa eang ac newydd etifeddu'r stad y flwyddyn flaenorol. Roedd wedi ennill 'Double-First' yng Ngholeg Balliol, Rhydychen, ac ar y ffordd yr adeg honno i ddatblygu'n arlunydd pur alluog ei hunan.

Roedd bywyd Mansel Lewis yn llawn o weithgareddau diwylliannol ac adeiladol. Ymhyfrydai mewn defnyddio ei gyfoeth mawr i gasglu paentiadau'r meistri ac i'w harddangos. Darlithiai'n fynych ar y celfyddydau cain wrth gymdeithasau yn Llanelli a'r cyffiniau.

Rhwng 1879 a 1884 daeth yn arferiad gan y ddau gyfaill — a thad Herkomer hefyd ar brydiau — wersyllu am rai wythnosau ar y tro yn Eryri, yn nhueddau Capel Curig a Thremadog. Ond eu hoff gyrchfan oedd yn nyfnderoedd Cwm Idwal. Canlyniad y teithiau hyn oedd nifer o dirluniau ardderchog gan Herkomer.

Arddangoswyd hwy yn yr Academi Frenhinol ac yn y prif orielau yn Llundain. Nid yw'r teitlau ffurfiol yn arddangos bob amser mai yng Nghymru y cafodd Herkomer y symbyliad i'r gwaith. Roedd tarddiad dau baentiad enwog o'i eiddo, *Found a Homeward*, yn Eryri, ac nid oes amheuaeth am darddle *The Gloom of Idwal*, nac am *Near Portmadoc*.

Mae'n eglur y bu'r cyfnodau o wersyllu nid yn unig o bleser digymysg i Herkomer, ond buont hefyd yn warant o'i lwyddiant pwysig fel artist.

Sonnir am un anffawd yn unig. Tybiodd nifer o'r brodorion chwilfrydig, neu'r pentrefwyr sychedig, fod casgen arbennig yn y gwersyll yn llawn o gwrw — ond paraffin oedd ynddi! Ni chroniclwyd y canlyniadau!

Roedd diwedd cyfnod y gwersyllu yn cyd-ddigwydd â throbwynt celfyddydol pwysig yn hanes Herkomer. Trodd oddi wrth dirluniau a chanol-bwyntiodd ar bortreadu enwogion, ac yn y maes yma y parhaodd — mwy neu lai — am weddill ei oes.

Nodaf yn unig rai o'i gysylltiadau Cymreig. Gwnaeth bortreadau rhagorol o Hwfa Môn, Archdderwydd Cymru, ac o Thomas Charles Edwards, Prifathro cyntaf Coleg Aberystwyth, ac Athrofa'r Bala wedyn; heb sôn am wŷr fel yr Arglwydd Penrhyn, Syr Watkin Williams Wynn, Henry M. Stanley a'r Ardalydd Bute.

Nid oes sicrwydd pwy oedd 'Gwenddydd' ac 'A Welsh Woman', dau bortread arall o'i waith.

* * * *

PAN DDAETH yr Eisteddfod Genedlaethol i Lanelli yn 1895, a hynny am y tro cyntaf erioed, Mansel Lewis yn ddigon naturiol oedd Cadeirydd Adran Celf a Chrefft. Roedd Herkomer yno fel beirniad yn yr Adran, a bu'r profiad yn gymhelliad ychwanegol i'w ddiddordeb mewn Cymreictod. Apeliodd yn daer am i'r Eisteddfod anelu at safonau ym myd celf cyfuwch â'r hyn a ddisgwylid eisoes ym myd cerddoriaeth a llenyddiaeth.

Mewn llythyr i'r wasg, 4 Medi 1896, mae Herkomer yn deisyf ar 'bob Cymro o'r tu mewn a thu allan i Gymru' ymegnïo yn yr ymdrech i wella'r sefyllfa gelfyddydol. Cynigiodd arweiniad ymarferol iddynt ar gyfer Eisteddfod 1897 yng Ngasnewydd, ac fe'u gwahoddodd i ysgrifennu ato'n uniongyrchol yn ei gartref, er mwyn derbyn ei gyfarwyddyd.

Pwysleisiodd yn ei lythyr y credai fod celfyddyd yn bodoli'n naturiol a greddfol yn y Celt, ac nad oedd angen dim mwy na symbylu a meithrin y ddawn gynhenid. Pwysleisiodd hefyd, er mwyn cryfhau'r apêl, fod ei erfyniad personol dan nawdd Cadeirydd Adran Celf yr Eisteddfod, sef ei gyfaill Mansel Lewis.

Ond roedd gan Herkomer gyfraniad ymarferol o bwys i'w gynnig i Orsedd y Beirdd. Canlyniad uniongyrchol ei brofiadau yn Llanelli oedd iddo saernïo'r Goron a'r Ddwyfron-neg ysblennydd, a hefyd urddwisg i'r Archdderwydd, a'u rhoi yn anrheg i'r Orsedd. Fe gofir iddo ddylunio gynau'r Orsedd y flwyddyn flaenorol.

*I'w gwblhau*


## AR WERTH

***Cofiant a Barddoniaeth Ben Bowen;** dan olygyddiaeth ei frawd David Bowen (Myfyr Hefin). Treorci, 1904. Yn rhad ac am ddim i gartref da.*
**Mr RHIANNON JONES, 2 Rhodfa'r Esgob, Treforys, Gorllewin Morgannwg SA6 6EE. Ffôn: 0792 790872.**

* * * *

***Cambria triumphans; or Brittain in its perfect lustre shewing the origen and antiquity of that illustruous nation . . .;** Percy Enderbie. London: Printed for A. Crooke, 1661.*
**RICHARD H. TURNER, 11 Hill Street, Caernarfon, Gwynedd. Ffôn: 0286 674611.**